**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA-P/VG/4235/18

Aelodau'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

4 Rhagfyr 2018

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

Roedd fy Natganiad Ysgrifenedig ar 12 Tachwedd yn rhoi gwybod i'r aelodau ynglŷn â gwasanaethau mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, gan gynnwys manylion yr adolygiad gan y Colegau Brenhinol yr wyf wedi gorchymyn ei gynnal, a'r cynnydd o ran gwaith y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â lleoedd gwag yn ei weithlu mamolaeth. Bu modd imi roi gwybodaeth i'r Aelodau bryd hynny am y sicrwydd yr oeddwn wedi'i gael gan y byrddau iechyd eraill yng Nghymru. Mae pob un o'r byrddau iechyd wedi cadarnhau bod ganddynt i gyd fecanweithiau adrodd a threfniadau llywodraethu cadarn ar waith i ddelio â digwyddiadau clinigol niweidiol.

Rwy'n ysgrifennu atoch heddiw i roi gwybodaeth ichi am y lefelau staffio mewn gwasanaethau mamolaeth eraill yng Nghymru, heblaw Cwm Taf.

Mae gofyn i bob bwrdd iechyd ddefnyddio'r adnodd gweithlu Birthrate Plus i benderfynu faint o staff bydwreigiaeth sydd eu hangen i ddarparu gofal i'w cleifion sy'n derbyn gofal mamolaeth. Mae pob un o'r byrddau iechyd wedi cadarnhau eu bod yn defnyddio'r adnodd hwn a'u bod yn ariannu'r lefelau staffio a argymhellir ar gyfer eu gwasanaeth. Adroddwyd bod nifer bach o swyddi gwag ar gyfer bydwragedd a gweithwyr cymorth mamolaeth mewn rhai byrddau iechyd, ac roedd gwaith ar y gweill i recriwtio i bob un. Mae rhywfaint o fynd a dod o ran staff yn rhywbeth i'w ddisgwyl.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Coleg Brenhinol y Bydwragedd (RCM) eu hadroddiad blynyddol *State of Maternity Services*, sy'n rhoi trosolwg o rai o'r tueddiadau sy'n digwydd o ran y 'darlun ehangach' yn y gweithlu bydwreigiaeth ac yn nodi rhai o'r heriau sy'n wynebu'r proffesiwn a'r gwasanaethau mamolaeth. Eleni, am y tro cyntaf, cyhoeddodd yr RCM adroddiadau unigol ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn hytrach nag un adroddiad ar gyfer y DU i gyd.

Nododd yr RCM bod y gweithlu bydwreigiaeth yng Nghymru wedi cynyddu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ers 2009, er gwaethaf gostyngiad ar ddechrau'r degawd, mae nifer y bydwragedd sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru wedi codi yn ôl yr hyn sy'n gyfwerth â 129 o fydwragedd amser llawn (i fyny 10.6 y cant). Mae Lloegr, ar y llaw arall, yn dal yn brin o fydwragedd - sefyllfa sy'n cael ei chydnabod yn agored gan y Llywodraeth. Yn wir, mae

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

amcangyfrif newydd yr RCM, sy’n seiliedig ar nifer y genedigaethau y llynedd a nifer y staff sydd mewn swyddi, yn nodi bod Lloegr yn brin o’r hyn sy’n cyfateb i 3,500 o fydwragedd amser llawn.

Mae gofyn i’r byrddau iechyd gydymffurfio â safonau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr ar gyfer presenoldeb obstetryddion ymgynghorol mewn wardiau esgor. Adroddodd pob un eu bod yn cydymffurfio, ac eithrio dwy uned sydd wrthi’n cymryd camau i gynyddu’r oriau pan fo ymgynghorydd yn bresennol.

O ran swyddi gwag staff obstetrig, cofnododd pob un o’r byrddau iechyd bod ganddynt rai swyddi gwag ar naill ai lefel ymgynghorwyr a/neu lefel staff meddygol iau. Er bod y prosesau recriwtio ar y gweill, mae llenwi’r swyddi yn parhau’n her. Mae prinder staff meddygol obstetrig drwy’r DU, ac felly nid Cymru’n unig sy’n wynebu heriau o ran ei gweithlu meddygol. Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau’n ddiogel, mae’r bylchau yn y rotas - gan gynnwys y rhai a achosir gan swyddi gwag - yn cael eu llenwi gan staff locwm a staff asiantaethau.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services